**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Gorffennaf 2024 |

**PWNC**

Eitem 6: CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 – CANLYNIAD Y CYFNOD YMGYSYLLTU CYHOEDDUS A'R PENDERFYNIAD I GADARNHAU

**PENDERFYNIAD**

1. Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a chadarnhawyd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 dyddiedig 1 Medi 2024 sydd ddim yn dod i rym yn uniongyrchol (Atodiad 2 o'r adroddiad) ar gyfer y defnyddiau canlynol, yn unol a'r Rhybudd Cyhoeddus:
    a. Newid defnydd o C3 (prif gartref) i C5 (ail gartref) neu C6 (llety tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol
    b. Newid defnydd o C5 (ail gartref) i C6 (llety tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol
    c. Newid defnydd o C6 (llety tymor byr) i C5 (ail gartref) a defnyddiau cymysg penodol

2. Hysbysu'r sawl a effeithir yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y diwygiwyd) ac awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i amodi'r penderfyniad ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

3. Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r rhybudd cyhoeddus cyn ei gyhoeddi.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae newidiadau i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y diwygiwyd) wedi creu 3 dosbarthiad defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi (C3), Ail Gartrefi (C5) a Llety Tymor Byr (C6). Pe ystyrir yn briodol, er mwyn rhwystro a chael rheolaeth o'r newid defnydd digyfyngiad rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y grym o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc) 1995 (fel y diwygiwyd) i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal benodol.

Yn dilyn penderfyniad gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 13 Mehefin 2023 fe osodwyd

Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Ynghyd a gosod y Rhybudd fe gynhaliwyd cyfnod ymgysylltu cyhoeddus cysylltiedig.

Mae gofyn nawr i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau a phenderfynu ynglŷn â phriodoldeb cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ai pheidio.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Bu i gyfnod ymgysylltu cyhoeddus statudol ei gynnal am gyfnod o 6 wythnos hyd at 13 Medi 2023 yn dilyn cyflwyno Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn nogfennaeth y cyfarfod ac ar www.gwynedd.llyw.cymru/erthygl4.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Gorffennaf 2024 |

**PWNC**

Eitem 7: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24, CYNLLUN CYDRADDOLEB STRATEGOL 2020-24

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2023-24, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 gan nodi cynnwys yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae hefyd yn ymarfer da o fewn y Cyngor i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r cynnydd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Gorffennaf 2024 |

**PWNC**

Eitem 8: GDMC CAERNARFON, PWLLHELI A CRICIETH

**PENDERFYNIAD**

a) Cymeradwywyd cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer Caernarfon, Pwllheli a Cricieth am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodwyd gyda'r adroddiad.

b) Awdurdodwyd Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i ymgymryd â chyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig yng Nghaernarfon, Pwllheli a Cricieth.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Awdurdodau Lleol a neb arall sydd gyda'r hawl i greu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol y Cabinet. Wedi cynnal cyfnod ymgynghori statudolmae angen adrodd ar y canlyniadau a dod i benderfyniad ar gymeradwyo y gorchyminion.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus rhwng y 26ain o Chwefror 2024 , a daeth i ben ar 8fed o Ebrill 2024 .

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.